The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012

# Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni

## Symud Rhwystrau i Gynhwysedd a Chydraddoldeb



**Elusen i blant Cymru gyfan yw SNAP Cymru ac mae'n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a phobl broffesiynol ar broblemau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau**

SQM Delivery Partnership

Helplines Partnership

# Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni

**Mae Partneriaeth Rhieni annibynnol SNAP Cymru'n rhad ac am ddim i deuluoedd ac yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth ddiduedd a chywir drwy ein Cynllun Annibynnol Cefnogi Rhieni.**

### Mae ein timau o staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn helpu:

- Teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ysgolion a mannau dysgu eraill ac ynghylch darpariaeth iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.
- Teuluoedd i weithio mewn partneriaeth a chynnal perthynas waith dda gyda'r bobl broffesiynol berthnasol.
- Ysgolion i ddal ati i ddatblygu ymarferion gwaith da gyda rhieni a gofalwyr.
- Teuluoedd i chwarae rhan effro a gwerthfawr yn addysg a datblygiad eu plentyn – gan roi dewis i deuluoedd.

### Mae ein timau o staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn cynnig:

- Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol a chywir .
- Clust i wrando, cyfle i deuluoedd drafod gyda'i gilydd. .
- Help i gael amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a chyngor arbenigol.
- Help ymarferol i ddelio â llythyrau, llenwi ffurflenni a deall adroddiadau proffesiynol.

## Annog Partneriaethau
## Gwrando ar Blant
## Rhoi Llais i Deuluoedd

### Mae ein timau o staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn cynnig:

Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ynghylch pryderon a allai effeithio ar addysg a datblygiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Cyngor ar hawliau a chyfrifoldebau
- Anghenion ychwanegol ar gyfer plant, gan gynnwys rhai cyn oedran ysgol.
- Deall Cynllun Addysg Unigol plentyn
- Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- Y broses Datgablynyddol
- Cynllunio pontio
- Bwlio
- Diffyg presenoldeb neu driwantu
- Eithrio, apeliadau a thribiwnlysoedd.

### Mae eich tîm SNAP Cymru yma i'ch helpu chi drwy:

- Ffôn neu ebost
- Llythyr a gwybodaeth ysgrifenedig
- Apwyntiad yn y Swyddfa Bartneriaeth leol
- Trefnu ymweliad cartref os yn addas
- Cefnogaeth mewn cyfarfodydd
- Hyfforddiant i rieni, gofalwyr a phobl broffesiynol.

**Llinell gymorth: 0808 801 0608**
**Llun – Gwener: 09:30 - 16:30**
**Ebost: llinellgymorth@snapcymru.org**

### Mae SNAP Cymru hefyd yn darparu:

- Cefnogaeth i grwpiau rhieni.
- Adfocatiaeth
- Datrys Anghydfod
- Hyfforddiant

**SNAP Cymru**, 10 Coopers Yard,
Heol Curran, Caerdydd, CF10 5NB
Ffon: 029 2038 4868 Ffacs: 029 2037 1876
**www.snapcymru.org**

*Rhif Elusen Gofrestredig: 1027599 / Rhif Cwmni Cyfyngedig: 2832114*
*Noddwyr: Glenys Kinnock ASE / Dr Phillipa Russell CBE / Richard Mylan*
*Rydym yn cael ein cefnogi gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru*